**ADRODDIAD BLYNYDDOL CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL HENBLAS (2021-2022)**

| | |
|---|---|
| Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol Ysgol Henblas sy'n unol â gofynion Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru).<br><br>**Nid ydym yn bwriadu cynnal cyfarfod penodol i drafod yr adroddiad hwn os na fydd nifer sylweddol o rieni yn gwneud cais. Os hoffech chi fynychu cyfarfod o'r fath a wnewch chi nodi hynny drwy ebost erbyn 15/1/2023.** Fel arall, gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am lwyddiannau'r ysgol eleni eto. Mae croeso i chi gysylltu gyda chadeirydd y corff llywodraethol neu'r pennaeth os hoffech chi drafod rhywbeth yn benodol neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r adroddiad. | *We are pleased to present the Annual Report of the Governors of Ysgol Henblas in accordance with School Governors Annual Report Regulations (Wales).*<br><br>***We do not intend to hold a specific meeting to discuss this report unless a significant number of parents ask for a meeting. If you feel you would like to attend such a meeting could you please make a written request to the school by 15/1/2023.*** *Otherwise we hope that you will enjoy reading about our school's successful year. You are welcome to get in touch with the chair of the governors or the headteacher should you wish to have additional information about anything, or if you would like to make a comment about this report.* |

**CYNNWYS**


1. **Neges gan y Cadeirydd** **Tudalen 3**

2. **Gwybodaeth am yr ysgol a'r Corff Llywodraethu** **Tudalen 4**

3. **Cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn** **Tudalen 9**

4. **Materion cyllidol** **Tudalen 13**

5. **Cynllun datblygu ysgol** **Tudalen 14**

6. **Datblygiadau Cwricwlaidd/Gweithgareddau Amrywiol** **Tudalen 17**

## 1. Neges gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Ysgol Henblas 2021-2022 i chi ar ran Corff Llywodraethu'r ysgol. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno trosolwg o brif weithgareddau a chyflawniadau'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Yn ystod y blynyddoedd heriol ddiwethaf, o dan arweinaid Mr Jones, y Pennaeth ac aelodau o staff hynod ymroddgar, mae'r ysgol wedi parhau i ffynnu a chyrraedd y safonau uchel a osodwyd. Rydym bob amser yn falch iawn o lwyddiannau ein disgyblion, ac yn parhau i werthfawrogi pob aelod o staff, y rhai sydd yn addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu, am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth sicrhau bod y disgyblion yn profi amgylchedd dysgu arbennig sydd hefyd yn hwyl ac yn bleserus.

Mae addysg yn ymdrech tîm rhwng rhieni, llywodraethwyr, athrawon a disgyblion ac rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth, ymglymiad a'ch brwdfrydedd tuag at fywyd yr ysgol ac addysg eich plant. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi ac yn diolch i aelodau'r Cymdeithas Rhieni Athrawon am eu hymrwymiad, a'u hymdrechion diflino wrth gefnogi cymuned yr ysgol mewn cymaint o ffyrdd gwahanol.

Mae llwyddiant yr ysgol o ganlyniad i'r gwaith tîm gwych sydd yn digwydd rhwng yr holl staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru yn golygu fod cryn newidiadau cyffroes yn digwydd ym myd addysg ac fel ysgol yr ydym yn hyderus ein bod yn gallu ymateb a diwallu'r gofynion hyn.

Byddwn yn parhau felly i sicrhau fod pob disgybl yma yn cael "gwreiddiau i dyfu, adennydd i hedfan".

Eleri Stephen

## 2. GWYBODAETH AM YR YSGOL A'R CORFF LLYWODRAETHU 2021-2022

| | |
|---|---|
| Cadeirydd Y Corff Llywodraethu | Mrs Eleri Stphen |
| Is Gadeirydd | Mrs Nia Allen |
| Pennaeth | Mr Huw Jones |
| Clerc i'r Corff Llywodraethu | Mrs Margaret Williams |

**Llywodraethwyr – Rhieni**
Mrs Eleri Stephen
Mrs Sioned McGuigan
Dr. Nia Allen
Mr Gethin Thomas

**Llywodraethwyr – Cyfethol aelod cymunedol**
Mrs Natalie Owen

**Llywodraethwyr - Staff**
Mrs Manon Roberts
Mr Huw Edward Jones

**Llywodraethwyr – Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol**
Cynghorydd Dafydd Roberts
Mr Paul Roberts

**Llywodraethwyr – Cyngor Cymuned**
Sioned Williams

**<u>STAFFIO MEDI 2021:</u>**
Meithrin/Derbyn/: Mrs Kelly Owen
Blwyddyn 1 2 2:  Mrs Manon Roberts
Blwyddyn 3 a 4: Mrs Heather Williams
Blwyddyn 5 a 6: Mr Huw Jones/Mrs Legge
Athrawes CPA: Mrs Sue Legge
Cydlynydd ADY: Mrs Roberts

Cynorthwywyr / Ymyrraethau Dysgu: Mrs Diane Jones, Mrs Carol Jones, Mrs Nia Jones, Mrs Sharon Barton, Mrs Rozena Hughes, Mrs Glenys Williams. Mrs Paula Harvey
Staff y gegin: Mrs Sian ac Mrs Tracey Jones
Gofalwr: Mr Barry Jones
Goruchwylwraig amser cinio: Ms Pat Williams
Hyfforddeion offerynnol: Euron Jones, Elen Keen, Catherine Jones

| **Enw** | **Rôl** | **Cyfrifoldeb** | **Cyfrifoldeb maes dysgu a phrofiad** | **Cymhorthydd** |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Huw Edward Jones | Pennaeth Athro | Strategol ysgol gyfan<br>Diogelu<br>Addysgu a dysgu<br>Rheoli perfformiad<br>Llythrennedd<br>Cyngor Ysgol | Celfyddydau mynegiannol<br>Mathemateg<br>Iaith | Sharon Barton |
| Manon Roberts | Athrawes CS | ADY<br>Diogelu | Gwyddoniaeth<br>Mathemateg<br>Iaith | Nia Jones<br>Carol Jones |
| Sue Legge | Athrawes CA2/CPA | Lles<br>Grwp Iach | Dyniaethau<br>Iechyd a lles<br>Ceflyddydau mynegiannol | Sharon Barton |
| Heather Williams | Athrawes CA2 | Mathemateg | Gwyddoniaeth<br>Iechyd a lles<br>Mathemateg | Paula Harvey<br>Glenys Williams |
| Kelly Owen | Athrawes CS | Digidol<br>Gwyddoniaeth<br>Grwp Eco | Gwyddoniaeth<br>Dyniaethau<br>Iechyd a lles | Diane Edwards |

**NIFEROEDD YM MHOB DOSBARTH MEDI 2021:**
Meithrin a Derbyn: 25
Blwyddyn 1 a 2: 27
Blwyddyn 3 a 4: 24
Blwyddyn 5 a 6: 34

**Cyfanswm y disgyblion = 110**
**Cefndir ieithyddol y plant – Tachwedd 2021:**

| Oedran | Sy'n siarad Cymraeg gartref | Nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl yn y Gymraeg | Sy'n siarad Cymraeg ond nid yn rhugl | Na allant siarad Cymraeg o gwbl |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Bl 5 a 6** | 25 | 7 | 2 | 0 |
| **Bl 3 a 4** | 16 | 4 | 4 | 0 |
| **Bl 2** | 12 | 6 | 0 | 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Bl1** | 5 | 3 | 0 | 0 |
| **Bl 0** | 4 | 0 | 4 | 3 |
| **Meithrin** | 7 | 0 | 3 | 4 |
| **Cyfanswm** | 69 | 20 | 13 | 8 |
| | 63% | 18% | 12% | 7% |

**Trosglwyddo i ysgol gyfun:**
Symudodd 20/20 disgybl i'r ysgol gyfun gyfagos sef Ysgol Gyfun Llangefni.

**Hyfforddiant staff 2021-2022:**
Yn ystod y flwyddyn mae'r staff wedi ymwneud a llawer o hyfforddiant yn ymwneud a'r cwricwlwm er mwyn derbyn datblygiad proffesiynol.

**GWYLIAU YSGOL 2021-2022**

**TYMOR:**
Hydref 2021 1 Medi 2021 - 22 Rhagfyr 2021
Gwanwyn 2022 6 Ionawr 2022 - 8 Ebrill 2022
Hâf 2022 25 Ebrill 2022 - 20 Gorffennaf 2022

Ysgolion yn agor i blant ar Ddydd Iau 2 Medi 2021.

**GWYLIAU:**
25 Hydref 2021 - 29 Hydref 2021 (Hanner-Tymor)
23 Rhagfyr 2021 - 5 Ionawr 2022 (Gwyliau'r Nadolig)
21 Chwefror 2022 - 25 Chwefror 2022 (Hanner-Tymor)
11 Ebrill 2022 - 22 Ebrill 2022 (Gwyliau'r Pasg)
2 Mai 2022 (Calan Mai)
30 Mai 2022 – 3 Mehefin 2022 (Hanner-Tymor)
Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:
MEDI 2021 22
HYDREF 2021 16
TACHWEDD 2021 22
RHAGFYR 2021 16
IONAWR 2022 18
CHWEFROR 2022 15
MAWRTH 2022 23
EBRILL 2022 11
MAI 2022 19
MEHEFIN 2022 19
GORFFENNAF 2022 14
Cyfanswm: 195

**HMS:**
1 Medi
4 Hydref
3 Rhagfyr
18 Chwefror
6 Mehefin

**3.Crynodeb o gyfarfodydd y corff 2021-2022:**

Medi 21 2021
**1**. Nodwyd fod 3 sedd gwag ar y Corff ac eglurwyd y drefn, sef fod etholiad rhieni lywodraethwyr wedi cymryd lle a fod 2 enw wedi dod i mewn sef Sioned McGuigan a Steffan Thomas. Cytunodd y corff eu bod yn hapus i'w cymeradwyo fel aelodau.
Nodwyd fod 1 sedd wag cynrychiolydd Awdurdod ac enwebwyd Paul Roberts.
Ethol swyddogion ar gyfer y flwyddyn i ddod.
UFA: Caban newydd: Cafwyd diweddariad gan nodi mai'r nôd yw symud mewn 21 Tachwedd 2021. Nodwyd nad yw'r broses tendro wedii cymryd lle eto
Mynegwyd pryder fod ceir yn parcio o flaen yr ysgol amser gadael, cytunwyd i dreialu trefn o roi conau i rwystro ceir gael mynediad yno.
Diogelwch clwb gofal/brecwast: mynegwyd pryder fod drysau'n agored yn ystod y cyfnod yma. Cytunwyd i newid y drefn fel fod pawb yn dod mewn trwy un drws yn unig i gychwyn o 22.09.21.

Tachwedd 16 2021
Cafwyd cyflwyniad gan Swyddog GDPR y Cyngor ar y gofynion i ysgolion mewn perthynas a rheoli data. Nododd fod yn rhaid i ysgolion brofi eu bod yn cydymffurfio efo'r Ddeddfwriaeth, gan nodi y bydd archwiliad yn cael ei gynnal Mawrth-Mehefin 2022.
Atgoffwyd pawb o bwysigrwydd hyfforddiant llywodraethwyr a'u hannog i fynychu.
Cytunwyd fod angen parhau i fonitro'r traffig tu allan i'r ysgol.
Adroddiad y Pennaeth: Cyflwynwyd adroddiad gan HJ gan nodi'r prif faterion sydd wedi codi tymor yma.
Data Haf 2021: Nodwyd fod y data ar gyfer Haf 2021 yn seiliedig ar asesiad athro a cafwyd trosolwg o'r prif bwyntiau oedd wedi codi. Cafwyd trafodaeth ar y data a chytunwyd fod canlyniadau eleni yn glodwiw.
Targedau: Cafwyd trosolwg o sut mae'r ysgol yn targedu'r plant i gyrraedd eu potensial.
Adroddiad Ymgynghorol cefnogi gwelliant:Edrychwyd ar adroddiad tymor yr Hydref (15/10/21) gan nodi'r prif bwyntiau.
Cyfarfu'r panel safonau 12/10/21 i graffu ar lyfrau a cafwyd adroddiad yn ôl ganddynt. Cytunwyd fod pawb yn hapus efo safon y gwaith yn y llyfrau gan nodi ei fod yn dystiolaeth wych o waith y plant. Diolchwyd i'r panel am ymgymryd a'r dasg.
ADY: Cyflwynwyd adroddiad gan Manon Roberts o gynhadledd ADY a fynychodd 6/10/21.
Adroddiad blynyddol diogleu: Cafwyd trosolwg o'r adroddiad diogleu.
Cytundeb lefel gwasanaeth: Eglurwyd fod CLG newydd wedi ei lunio efo'r Cyngor fydd yn weithredol tan 31/3/2024 ar gyfer Swyddog Diogleu Data Ysgolion. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ein bod yn gwneud defnydd o'r CLG fel ysgol a llywodraethwyr.
Polisiau: Polisi Cwynion: angen nodi'r gwahaniaeth yn glir fod un yn ymwneud a cwyno yn erbyn staff a.y.b. a'r llall yn gwynion cyffredinol gan rieni
Polisi Pensiwn: dim yn anghenraid fod staff efo polisi pensiwn Gwynedd felly angen nodi hyn yn y geiriad
Polisi ail strwythuro: pwynt 16-3: "gwaith gwirioneddol a wneir yn ymarferol": angen eglurdeb ar y pwynt hwn.
Polisi recriwtio a dethol: pwynt 2.6: "geirda cyn cyfweliad": ydi hyn yn iawn o dan reolau GDPR?
Polis GDPR angen ei fabwysiadu cyn 22/12/21:

Chwefror 15 2022:
Cofnodion cyfarfod 16 Tachwedd 2021
Polisiau: Polisi Iechyd a Diogelwch (asesu risg): HEJ i edrych ar asesiad risg , yn arbennig y sefyllfa parcio gerllaw'r ysgol. Mynegwyd pryder ynglyn â'r drefn bresennol. Cytunnwyd hefyd i gysylltu efo'r Adran Addysg.
Polisi Mamolaeth: Cododd y cwestiwn os oes anghysondeb rhwng yr un ar gyfer athrawon a staff cefnogol.
Polis Absenoldeb: Nodwdyd fod beichiogrwydd yn cael ei gydnabod fel salwch ond nid yw'n salwch.
Panel safonau wedi cyfarfod 03.02.22

- wedi edrych ar waith ar draws yr ysgol gan weld sut yr oedd llafaredd yn gwella/datblygu ar draws y cyfnod yma
- digon a amrywiaeth a chreadigrwydd
- nodwyd mai un o'r blaenoriaethau ar gyfer eleni yw datblygu llefaredd Cymraeg.

Gweledigaeth yr ysgol: Eglurwyd ein bod fel ysgol yn llunio gweledigaeth fel rhan o'r cwricwlwm newydd a nodwyd fod ymateb wedi cael ei dderbyn gan rieni a llywodraethwyr.
Adroddiad blynyddol y Corff Llywodraethu: Cafwyd trosolwg o'r un ar gyfer 2020/21.
Amddiffyn plant: Eglurwyd fod HEJ/ES wedi cynnal cyfarfod trosolwg
Cytundeb partneriaeth:Nodwyd fod y fersiwn derfynol wedi ei chyhoeddi ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w derbyn.
Panel Cyllid: Adroddwyd nôl o'r cyfarfod a nodwyd nad oedd pryderon mawr ynglyn a'r sefyllfa gyllidol.
Iechyd a diogelwch: Ffens newydd - Nodwyd fod grant Cynnal a Chadw i helpu efo'r sefyllfa covid wedi ei dderbyn. Ffens newydd yn mynd i gael ei osod o amglych caeau'r ysgol ar gôst o £4k (£2K yr un ysgol/sir).
Gaeaf llawn lles: Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi derbyn £1.8k ar gyfer creu "cornel sensori" tu allan.
Tender gofal Henblas: Cafwyd diweddariad ynglyn â'r tendr ar gyfer gofal ar safle'r caban newydd.
Hyfforddiant Llywodraethwyr:Cafwyd trafodaeth o'r cyrsiau mae'r llywodraethwyr wedi mynychu.

Ebrill 5 2022:
Cyfarfod y Cyngor Ysgol: Cyfle i drafod gwaith y plant ac i graffu ar lyfrau
Craffwyd ar Adroddiad y Pennaeth
Rol cynorthwywyr addysgu: Edrychwyd ar yr ebost yn amlinellu rol cynorthwywr addysgu
Cyflwyniad World Submit(HEJ): Adroddiad gan HEJ am ei gyflwyniad ar Prosiect Shirley Clark yn y gynhadledd World Summit.
Cynllun Gwella Ysgol: Trafodwyd y Cynllun Datblygu a blaenoriaethau'r ysgol
Cwricwlwm i Gymru: Cafwyd cyflwyniad ar sut mae cynlluniau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn datblygu yn sirol ac o fewn yr ysgol
Hunanarfarnu: Adrodd yn ol gan y pennaeth ar brosesau hunanarfarnu megis craffu ar wersi, awdit 4 diben a'r profion mewnol.
Edrychwyd ar ganllawiau sirol GDPR
Tendr Darpariaeth: Cafwyd diweddariad ynglyn â'r tendr ar gyfer gofal ar safle'r caban newydd.

Iechyd a Diogelwch: Cafwyd adborth ar adroddiad Jane Marr o'r cyngor yn dilyn ymweliad diweddar.

Mai 24 2022:
Sefyllfa ynglyn â'r caban: "cyfarfod y prynnwr" wedi cymryd lle.
Polisiau: Dosbarthwyd y polisiau rhag blaen.Derbyniwyd y polisiau i gyd.
Dylunio cwricwlwm: Cafwyd trafodaeth ar ein gwerthoedd.
Cyllideb: Cafwyd trosolwg o'r sefyllfa gyllidol gan nodi fod gan yr ysgol £113,833 wrth gefn. Eglurwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal efo Gwenda Woodford i drafod y sefyllfa gyllidol.
**Panel cymedroli ADY 13.5.22**: Cafwyd trosolwg o'r hunanarfarniadau ADY blynyddol, a nodwyd fod 3 targed wedi ei greu ar gyfer y flwyddyn nesaf.
Hunanarfarnu ar gyfer llywodraethwyr: Cafwyd cais i bawb edrych ar "Canllawiau i lywodraethwyr fonitro" (o'r llawlyfr llywodraethwyr). Cafwyd trosolwg o'r cwestiynnau ar gyfer llywodraethwyr a cytunodd HEJ i roi holiadur ar gyfer y corff llawn.
GDPR: Cafwyd trosolwg o'r adroddiad gan Elin Williams.

Gorffennaf 13 2022
Croesawyd Sioned Williams i'w chyfarfod cyntaf fel cynrychiolydd cymunedol.
Adroddiad y Pennaeth
Cafwyd adroddiad trylwyr gan HJ gan nodi:
- niferoedd yr ysgol yn galonogol
- parhau efo 4 dosbarth
- CSYM (Addysg) wedi cael arolwg  Estyn
- Profiion Cenedlaethol wedi eu cynnal a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu efo'r rhieni trwy Hwb y plentyn

Cwmni oedd  yn marcio'r iard ar gyfer gweithgareddau wedi dweud nad yw'r tarmac ddigon da i wneud y gwaith. Wedi bod yn holi i gael tŵr chwarae fyddai'n addas i blant ar draws yr ysgol
Blaenoriaethau 2021/22: Cafwyd trosolwg o ble mae'r ysgol arni o ran blaenoriaethau a nodwyd lle mae cynnydd wedi cymryd lle. Y 3 blaenoriaeth yw:
Yn dilyn trafodaeth rhagdybwyd mai'r blaenoraeithau ar gyfer 2022/23 fydd:
- Cwricwwm i Gymru
- Y Gymraeg
- cohort darllen mewn 1 blwyddyn
- Cymhwysedd digidol

Hunanarfarnu/ taith ddysgu: Cynhalwyd taith ddysgu  17:6:22 ac roedd canmoliaeth mawr gan y llywodraethwyr o'r hyn yr oeddent wedi ei weld yn yr ysgol yn ystod yr ymweliad. Nodwyd fod ymateb y disgyblion wedi bod yn wych.
Craffu ar lyfrau: Eglurwyd fod Gwenno Jones (GwE) wedi ymweld â'r ysgol i gael diwrnod o graffu ar lyfrau a siarad efo'r plant.
**Taith ddysgu ADY:** MR wedi cynnal taith ddysgu ADY ac wedi trafod y canfyddiadau efo ES a chafwyd trosowlg o'r prif bwyntiau ganddi.
**Addysg berthnasol a rhywioldeb:** Eglurwyd y bydd yn statudol o Medi 2022 i bob plentyn dderbyn addysg berthnasol a rhywioldeb (ni fydd angen cael caniatad rhiant).
**GDPR:** Nododd HEJ ei fod wedi bod ar hyfforddiant CCTV a cafwyd trosolwg o'r prif bwytiau.
Dylunio cwricwlwm i Gymru: Cafwyd trosolwg o adroddiad drafft gan GJ a nodwyd fod yr ysgol yn dilyn y llwybr iawn ar gyfer dylunio'r cwricwlwm i Gymru.

Iechyd a Diogelwch: HJ a PR wedi cynnal taith  o amgylch yr ysgol a nodwyd fod 95% o'r pethau oedd wedi eu nodi fel angen sylw llynedd wedi cael eu gwneud.
Cafwyd trosolwg o'r sefyllfa gyllidol:

- Sir wedi gofyn am gynllun 3 mlynedd ar gyfer arian wrth gefn a cafwyd trosolwg o'r cynllun drafft gan HJ
- Gwersi offerynnol: cytunnwyd i gadw efo'r un pris
- Cronfa'r ysgol wedi cael ei harchwilio a dosbarthwyd copi o'r dystysgrif
- Online telephone banking: nodwyd fod yr ysgol am symud i wneud "online telephone banking" a cytunnwyd i hyn

## 4. Materion Cyllidol

**Gweler cofndoion o'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn am fanylion pellach.**

**Adroddiad cyfrifon terfynol Ysgol Henblas 2021-22:**

Cliciwch yma i rhedeg yr ymholiad

| AA026 - Llangristiolus | Cyllideb Blwyddyn Llawn | Gwariant Gwirioneddol y Cyfnod | Gwariant Blyddyn Hyd Yma | Ymrwymiad Blwyddyn Hyd Yma | Gwirioneddol ac Ymrwymiad | Cyllideb Blwyddyn Hyd Yma | Amrywiant Blwyddyn Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon | 269,910.00 | 22,713.07 | 271,058.54 | 0.00 | 271,058.54 | 269,910.00 | 1,148.54 |
| Llanw | 10,090.00 | 9,205.68 | 30,205.67 | 0.00 | 30,205.67 | 10,090.00 | 20,115.67 |
| Staff Grant | 6,900.00 | 497.60 | 7,012.90 | 0.00 | 7,012.90 | 6,900.00 | 112.90 |
| Ategol Misol | 42,410.00 | 5,711.02 | 49,339.24 | 0.00 | 49,339.24 | 42,410.00 | 6,929.24 |
| Integreiddio | 66,150.00 | 6,081.50 | 54,557.28 | 0.00 | 54,557.28 | 66,150.00 | (11,592.72) |
| Staff Gweinyddol | 6,090.00 | 612.52 | 6,213.61 | 0.00 | 6,213.61 | 6,090.00 | 123.61 |
| Ategol Wythnosol | 7,610.00 | 709.71 | 7,165.16 | 0.00 | 7,165.16 | 7,610.00 | (444.84) |
| Hyfforddiant Staff | 0.00 | 100.00 | 1,231.17 | 0.00 | 1,231.17 | 0.00 | 1,231.17 |
| Premiwm Salwch ac hysbysebu | 11,620.00 | (420.00) | 11,240.00 | 0.00 | 11,240.00 | 11,620.00 | (380.00) |
| ***Staffio*** | 420,780.00 | 45,211.10 | 438,023.57 | 0.00 | 438,023.57 | 420,780.00 | 17,243.57 |
| Cynnal a Chadw | 8,930.00 | 578.63 | 11,339.59 | 0.00 | 11,339.59 | 8,930.00 | 2,409.59 |
| Cynnal a Chadw AT | 2,880.00 | 0.00 | 2,880.00 | 0.00 | 2,880.00 | 2,880.00 | 0.00 |
| Cytundeb Glanhau | 6,320.00 | 0.00 | 6,260.63 | 0.00 | 6,260.63 | 6,320.00 | (59.37) |
| Casglu Gwastraff | 570.00 | 58.24 | 573.52 | 0.00 | 573.52 | 570.00 | 3.52 |
| Deunydd Glanhau | 1,020.00 | 0.00 | 837.60 | 0.00 | 837.60 | 1,020.00 | (182.40) |
| Trethi | 9,095.00 | 0.00 | 9,095.00 | 0.00 | 9,095.00 | 9,095.00 | 0.00 |
| Costau Ynni Trydan | 4,650.00 | (522.29) | 3,422.44 | 0.00 | 3,422.44 | 4,650.00 | (1,227.56) |
| Costau Ynni Nwy/Olew | 3,530.00 | 1,679.48 | 4,041.24 | 0.00 | 4,041.24 | 3,530.00 | 511.24 |
| Costau Ynni Dwr | 2,050.00 | 0.00 | 1,619.13 | 0.00 | 1,619.13 | 2,050.00 | (430.87) |
| ***Adeilad*** | 39,045.00 | 1,794.06 | 40,069.15 | 0.00 | 40,069.15 | 39,045.00 | 1,024.15 |
| Lwfans y Pen | 16,660.00 | 2,286.76 | 16,295.84 | 0.00 | 16,295.84 | 16,660.00 | (364.16) |
| Gwasanaethau Allanol | 2,750.00 | 0.00 | 2,218.72 | 0.00 | 2,218.72 | 2,750.00 | (531.28) |
| Llungopiwyr | 0.00 | 0.00 | 2,288.76 | 0.00 | 2,288.76 | 0.00 | 2,288.76 |
| Cerddoriaeth | 1,520.00 | 1,269.00 | 4,161.00 | 0.00 | 4,161.00 | 1,520.00 | 2,641.00 |
| Cynnal | 1,380.00 | 0.00 | 1,212.39 | 0.00 | 1,212.39 | 1,380.00 | (167.61) |
| Post | 50.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 50.00 | (50.00) |
| Teleffôn | 440.00 | 0.00 | 832.55 | 0.00 | 832.55 | 440.00 | 392.55 |
| Bandllydan | 2,120.00 | (224.01) | 1,895.99 | 0.00 | 1,895.99 | 2,120.00 | (224.01) |
| Cyfrifiaduron | 0.00 | 0.00 | 14,483.00 | 0.00 | 14,483.00 | 0.00 | 14,483.00 |
| Adnoddau Grant | 0.00 | 0.00 | 1,528.07 | 0.00 | 1,528.07 | 0.00 | 1,528.07 |
| ***Cyflenwadau a Gwasanaethau*** | 24,920.00 | 3,331.75 | 44,916.32 | 0.00 | 44,916.32 | 24,920.00 | 19,996.32 |
| Cyngor Ariannol | 2,840.00 | 0.00 | 2,840.00 | 0.00 | 2,840.00 | 2,840.00 | 0.00 |
| Gweinyddu Cynnal a Chadw | 630.00 | 0.00 | 630.00 | 0.00 | 630.00 | 630.00 | 0.00 |
| Prydau Ysgol | 72,810.00 | 0.00 | 72,810.00 | 0.00 | 72,810.00 | 72,810.00 | 0.00 |
| Taliadau ac Incwm | 1,100.00 | 0.00 | 1,100.00 | 0.00 | 1,100.00 | 1,100.00 | 0.00 |
| Personnel a Chyflogau | 2,810.00 | 0.00 | 2,810.00 | 0.00 | 2,810.00 | 2,810.00 | 0.00 |
| Data Disgyblion | 780.00 | 0.00 | 780.00 | 0.00 | 780.00 | 780.00 | 0.00 |

*Cynhyrchwyd ar: 27 Apr 2022 12:45:28* *Tudalen 1 o 2*

Cliciwch yma i rhedeg yr ymholiad

| AA026 - Llangristiolus | Cyllideb Blwyddyn Llawn | Gwariant Gwirioneddol y Cyfnod | Gwariant Blyddyn Hyd Yma | Ymrwymiad Blwyddyn Hyd Yma | Gwirioneddol ac Ymrwymiad | Cyllideb Blwyddyn Hyd Yma | Amrywiant Blwyddyn Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddol Cyfieithu | 690.00 | 0.00 | 690.00 | 0.00 | 690.00 | 690.00 | 0.00 |
| Gweinyddol Salwch | 310.00 | 0.00 | 310.00 | 0.00 | 310.00 | 310.00 | 0.00 |
| ***Datganoli Pellach*** | 81,970.00 | 0.00 | 81,970.00 | 0.00 | 81,970.00 | 81,970.00 | 0.00 |
| Grant GAD | (6,900.00) | (2,098.31) | (6,900.00) | 0.00 | (6,900.00) | (6,900.00) | 0.00 |
| Incwm Grant Arall | (2,480.00) | (8,970.55) | (56,119.30) | 0.00 | (56,119.30) | (2,480.00) | (53,639.30) |
| Incwm Cerddoriaeth | 0.00 | (300.00) | (2,490.00) | 0.00 | (2,490.00) | 0.00 | (2,490.00) |
| Rhoddion | 0.00 | (17,116.67) | (18,490.84) | 0.00 | (18,490.84) | 0.00 | (18,490.84) |
| Llog Derbyniadwy | 0.00 | (44.00) | (44.00) | 0.00 | (44.00) | 0.00 | (44.00) |
| Incwm Cynllun Salwch | 0.00 | (2,625.00) | (5,987.84) | 0.00 | (5,987.84) | 0.00 | (5,987.84) |
| Incwm Arall | 0.00 | (6,192.22) | (18,567.39) | 0.00 | (18,567.39) | 0.00 | (18,567.39) |
| ***Incwm*** | (9,380.00) | (37,346.75) | (108,599.37) | 0.00 | (108,599.37) | (9,380.00) | (99,219.37) |
| Cyfraniad Arian Wrth Gefn | 52,880.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 52,880.00 | (52,880.00) |
| ***Cyfraniad Arian Wrth Gefn*** | 52,880.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 52,880.00 | (52,880.00) |
| ***AA026 Llangristiolus*** | 610,215.00 | 12,990.16 | 496,379.67 | 0.00 | 496,379.67 | 610,215.00 | (113,835.33) |
| ***Cyfanswm ar gyfer: AA026 Llangristiolus*** | 610,215.00 | 12,990.16 | 496,379.67 | 0.00 | 496,379.67 | 610,215.00 | (113,835.33) |
| ***Cyfanswm ar gyfer: AA026 Cost Centre (Primary Dim)*** | 610,215.00 | 12,990.16 | 496,379.67 | 0.00 | 496,379.67 | 610,215.00 | (113,835.33) |
| ***Cyfanswm:*** | 610,215.00 | 12,990.16 | 496,379.67 | 0.00 | 496,379.67 | 610,215.00 | (113,835.33) |

## 5. CYNLLUN DATBLYGU YSGOL

**Y FFORDD YMLAEN AR GYFER 2021/2022**

BLAENORIAETH 1 – ADY – diwygio gweithdrefnau i gydfynd a gofynion y ddeddf ADY newydd

BLAENORIAETH 2 – datglygu medrau llafaredd Cymraeg y disgyblion

BLAENORIAETH 3 – Cwricwlwm i Gymru

**Adrodd ar gynnydd**

1. Blaenoriaeth ADY

Adroddiad cydlynydd Gorffennaf 2022.

<table>
<tr><th>Agwedd</th><th>Sylwadau</th><th>Tystiolaeth</th><th>Effaith</th></tr>
<tr><td colspan="4">CADY wedi cynnal taith ddysgu rôl y cymorthyddion ym Mehefin 2022. Edrych ar wahaniaethu o fewn dosbarth, targedu effeithiol, paratoi adnoddau.<br>Mae'r holl waith darparu adnoddau a gwahaniaethu gan y cymorthyddion ac athrawon ar y cyd yn sicrhau datblygiad o fewn sesiynau targedu. Cyfleoedd i ddisgyblion lwyddo mewn heriau addas.<br>Cyfathrebu gwych sydd rhwng staff dysgu a chymorthyddion yn sicrhau bod asesu a chynllunio trylwyr yn digwydd er mwyn symud y plant ymlaen.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Gwaith targedu yn profi cynnydd:</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae canlyniadau profion mewnol a'r system tracio ysgol yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd da.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Blaenoriaeth dalgylchol<br>Mae cyd-weithio gyda'r dalgylch yn ein galluogi i sicrhau bod cysondeb rhwng ein mapiau darpariaeth, adnoddau a phrofion mewnol.</td></tr>
<tr><td colspan="4">CDU arlein: Defnydd cyson ac effeithiol yn weithredol drwy'r ysgol gyfan. CDU's yn cael eu diweddaru yn gyson gan athrawon. Pob disgybl gyda proffil 1 tudalen.<br>Mae'n ein galluogi i greu deilliannau effeithiol o fewn y proffiliau 1 tudalen a CDU's sy'n dangos cynllunio a gwahaniaethu effeithiol ar gyfer unigolion.</td></tr>
</table>

2. Blaenoriaeth y Gymraeg:

Blaenoriaeth Y Gymraeg: llafaredd 2021-22

| |
|---|
| Disgyblion hynaf yr ysgol wedi cymryd rhan yn y prosiect cenedlaethol **Ein Llais Ni**.Gweler adroddiad astudiaeth achos gwblhawyd Mehefin 2022.<br>Wrth edrych ar y data o'r ail holiadur 'Ein Llais Ni' gwelir fod y canran o blant y cyfnod sylfaen sydd yn teimlo'n hapus wrth siarad Cymraeg pan yn gweithio mewn parau wedi codi i 85.7% o'r ffigwr gwreiddiol 83.9%.<br>Wrth edrych ar y cohort yng nhgyfnod allweddol dau mae'r canran sy'n teimlo'n hyderus wrth siarad Cymraeg mewn unrhyw sefyllfa wedi codi o 39% i 43.1%; y cyfle i siarad Cymraeg ar lafar yn y dosbarth wedi codi o 62% i 77%; cyfleoedd i siarad Cymraeg ar lafar o amgylch yr ysgol neu yn y gymuned wedi codi o 49% i 62%; y canran sy'n mwynhau gwaith dosbarth lle mae cyfle i ymateb ar lafar o flaen y dosbarth cyfan wedi codi o 35% i 50%; y ffigwr o ran cael digon o gyfleoedd i ymarfer siarad ar gyfer gwahanol sefyllfaeodd wedi codi o 49% i 53%; y canran sy'n gwybod pryd i ddefnyddio iaith briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd wedi codi o 39% i 59%. |

| |
|---|
| Disgyblion y dosbarth glas wedi cymryd rhan yn y prosiect **Prosiect Miwtini Bach** yn plethu agweddau o fentergarwch, llythrennedd a rhifedd. |
| **Data darllen/ llafaredd/ ysgrifennu Cymraeg**<br>Adroddiad y cydlynydd llythrennedd yn nodi cynnydd pendant o ran sgoriau safonedig ym maes darllen. |
| **Panel Safonau craffu ar samplau llafaredd**<br>Sylwadau y panel safonau mewn adroddiad ffurfiannol yn nodi cyfleoedd bwriadus rheolaidd ar gyfer datblygu llafaredd |
| **Taith ddysgu Mehefin 17**<br>Adroddiad ffurfiannol y corff llywodraethol yn nodi fod y disgyblion yn arddangos hyder cynyddol wrth ryngweithio gyda chynulleidfa mewn sefyllfa lled ffurfiol. |

3. Blaenoriaeth Cwricwlwm i Gymru:

**Blaenoriaeth Cwricwlwm i Gymru**

| |
|---|
| Manon Roberts yn aelod o'r gweithgor rhanbarthol sy'n datblygu Cwricwlwm i Gymru<br>MR wedi mynychu cyfarfodydd rhanbarthol a lleol Môn ers Medi 2021.<br>Rôl y grŵp yw 'datblygu dealltwriaeth gytun o gynnydd, datblygu cwricwlwm a cyd ddatblygu modelau cwricwlwm lefel uchel.'<br>MR wedi arwain cyfarfodydd lleol - rheadru negeseuon pwysig, cynhyrchu sleidiau trafod |
| Strwythuro'r cwricwlwm newydd: cydweithio dalgylchol<br>Staff dysgu wedi derbyn cyfrifoldebau meysydd dysgu a phrofiad, wedi craffu ar y cwricwlwm newydd ac wedi dadgloi'r cwricwlwm newydd<br>Tasgau yn adlewyrchu gofynion y cwricwlwm newydd ac yn adlewyrchu y 4 diben yn gyfoethog yn y cynllunio bwriadus |
| Adolygu offeryn 12 egwyddor addysgegol: Staff dysgu wedi cynnal arfarniad o weithdrefnau addysgeg yr ysgol. Cyfarfod y grwp addysgeg Mawrth 2022 wedi rhannu arferion da |
| Dylunio cwrciwlwm newydd - cynnwys llais y rhanddeiliaid.<br>Rhanddeiliaid wedi cael mewnbwn i'r cwricwlwm newydd drwy ddefnydd o google forms - rhoi barn ar weledigaeth.<br>Corff llywodarethol wedi rhoi mewnbwn ar egwyddorion yr ysgol hefyd. |
| Cydweithio gyda'r grwp addysgeg/ meddylfryd o dwf.<br>Rhannu arferion da. |
| Creu cyflwyniad ar gyfer rhwydwaith GwE ar bedagogiaeth<br>Y pennaeth wedi rhannu arferion da o ran addysgu yn ymwneud ac adborth.<br>Adlewyrchu gofynion y cwricwlwm newydd er mwyn hybu dysgwyr annibynnol ac uchelgeisiol<br>Dysgwyr yn rhan greiddiol o'r broses adborth. |
| Dysgwyr hynaf yn rhan o brosiect dalgylchol diogelwch y we ac wedi creu ffilm adnabod peryglon a manteision y cyfrwng digidol |
| Cyngor ysgol dalgylchol wedi cydweithio ar weledigaeth clwstwr ysgolion Cefni.<br>Cyngor ysgol wedi adnabod gwerthoedd yr ysgol - sydd yn rhan o'r dyluniad cwricwlwm newydd |

## 6. DATBLYGIADAU CWRICWLAIDD/GWEITHGAREDDAU AMRYWIOL

**Iaith yr ysgol:**
**Ysgol Gymraeg yw Ysgol Henblas, sydd yn darparu addysg drwy gyfrwng y ddwy iaith. O flwyddyn 2 ymlaen fe gyflwynir Saesneg fel rhan o'r ddarpariaeth.**

**Bwyd a Ffitrwydd (Hybu Bwyta a Byw yn Iach)**
Mae'r ysgol yn ymdrechu yn galed i hybu ffordd iach o fyw. Os danfonir bocs bwyd gyda'r disgyblion ar gyfer amser cinio gofynnir i'r rhieni gefnogi polisi bwyta'n iach yr ysgol trwy beidio â chynnwys siocled, losin ac yn y blaen yn y bocs. Anogir y disgyblion i ddod â ffrwythau i'w bwyta yn ystod amser egwyl y bore.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Eto, gan ddilyn ein polisi cadw'n iach, rydym yn sicrhau bod dŵr i'w yfed ar gael ar gyfer y disgyblion trwy'r dydd ond mae'r ffynhonnau allan o ddefnydd ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau COVID.

Paratoir cinio ardderchog i'n plant ac fe gafodd gydnabyddiaeth haeddiannol am hynny ac mae y nifer sydd yn cymryd cinio ysgol ymysg yr uchaf ar Ynys Mon.

Mae Mike Allen a Louise Martin (rhieni) yn cynnal sesiynau garddio rheolaidd gyda'r plant sydd yn nhybu eu dealltwriaeth o daith bwyd o'r ardd i'r blat.

**Clybiau ar ol ysgol - chwaraeon**
Clybiau amrywiol:Rydym yn ddiolchgar am yr holl glybiau sydd yn Ysgol Henblas ar ol 3:15.
Bu'r clybiau Urdd, rygbi a phel droed yn boblogaidd iawn.
Cynhaliwyd clybiau rygbi a phel droed gan ddau riant sef Barry Edwards a Mike Coyne.

**Cyswllt â'r gymuned:**
Apel banc bwyd - llwyddwyd i gasglu llawer iawn o nwyddau ar gyfer apel banc bwyd yn ystod mis Rhagfyr a daeth daeu aelod o'r gangen yng Nghaergybi i nol y nwyddau gyda diolch mawr.
Papur Bro - mae cyfraniadau misol i'r papur bro yn rhannu newyddion am yr ysgol.
Plant mewn angen - cefnogwyd yr ymgyrch eto eleni gyda chyfanswm o £192
Teams4U: Cludwyd yr holl focsus i Ysgol Llangefni yn ddiogel.
Trefnodd y dosbarth oren farchnad cynnyrch lleol gan wahodd busnesau lleol yn ogystal ag aelodau'r gymuned gan wneud elw o £600.
Cylch Meithrin Henblas: mae cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin ac rydym mewn cyswllt agos ynghylch ymgysylltu gyda'r gymuned er mwyn adnabod niferoedd fydd yn mynychu yn y dyfodol.

**Profiadau:**
Gweler y ffilm hon yn rhoi blas o fwrlwm y flwyddyn 2021-22:
https://youtu.be/cS5UyfJM4Ts

Am restr lawn o brofiadau gweler ein gwefan ysgol:
http://ysgolhenblas.org/newyddion.html

**Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Mae nifer o blant yn cael addysg anghenion addysgol arbennig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae gan rai plant anghenion arbennig penodol, anabledd corfforol neu allu neilltuol (Mwy Abl a Thalentog) sydd yn rhaid cael ei ymestyn. Gan ddefnyddio grant Carlam cyflogwyd dwy athrawes i dargedu a chynnal y grwpiau hyn. Ein nod yw ateb gofynion pob plentyn trwy gynllunio yn ofalus, defnyddio ystod o strategaethau gweledol, clywedol a chinesthetig sy'n galluogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

Mrs Manon Roberts yw cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2021/2022 bu'r holl staff yn cyfrannu i'r gefnogaeth sydd ar bob disgybl ei angen. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn gweithio'n agos gyda'r athrawon dosbarth ac asiantaethau allanol i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial. Rydym yn parhau i weithredu cynllun Tric a Chlic, Safmeds, Dyfal Donc a Talkabout fel ymyrraethau i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd ac emosiynol a chymdeithasol disgyblion.

**Cyfleoedd Cyfartal**

Credwn fod yr hawl gan bob unigolyn beth bynnag fo'i hil, ei gefndir, ei grefydd neu ei anabledd i dderbyn cyfle cyfartal yn yr ysgol hon. Ymfalchïwn ein bod yn ysgol sydd yn croesawu disgyblion, staff a rhieni o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, hil, rhywedd, anabledd, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

**Cynllun Mynediad i'r Ysgol**

Fel ysgol 'rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ac addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. 'Rydym yn sicrhau bod pob disgybl ag anabledd yn cael yr un profiadau â phawb arall yn yr ysgol. 'Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd. Mae gan yr ysgol bolisi perthnasol a chynllun mynediad.

**Polisïau**

Mae'r ysgol yn adolygu ac yn gwerthuso llwyddiant y strategaethau a ddefnyddir yn yr ysgol yn rheolaidd. Mae rhestr lawn o bolisïau'r ysgol ar gael yn yr ysgol. Os hoffech weld neu drafod unrhyw bolisi mae croeso i chi wneud apwyntiad i drafod hynny gyda Mr Jones.

**Iechyd a Diogelwch**

Diogelir y drysau allanol trwy gael ffob arbennig i sicrhau mynediad. Mae pob ymwelydd yn mynd i swyddfa'r ysgol yn gyntaf ble y byddant yn arwyddo i mewn ac yn cael bathodyn ymwelydd.
Mae'r iard yn addas ar gyfer disgyblion ac oedolion ag anableddau. Mae polisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr gan yr ysgol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i bawb o fewn yr ysgol.

**Toiledau**

Mae'r toiledau yn cyrraedd gofynion statudol.Maent yn cael eu glanhau yn ddyddiol. Mae un toiled anabl. Os oes mater yn codi oherwydd glendid y toiledau bydd rhywun yn delio â'r mater cyn gynted â phosibl. Yn ystod haf 2022 cafodd toiledau'r disgyblion eu hadnewyddu yn llwyr gan yr awdurdod lleol.

**Cynllun Brecwast Am Ddim Llywodraeth Cymru**

Mae'r Cynllun Brecwast a ariannir gan Lywodraeth Cymru yn mynd o nerth i nerth ac yn llawn o ran niferoedd. Pwrpas y cynllun yw rhoi brecwast i rai na fyddai yn cael hynny gartref.

**Pwyllgorau yr ysgol (2021-2022**)

Mae llais y plentyn yn bwysig iawn yn yr ysgol ond oherwydd cyfyngiadau COVID 19 - cyfyngwyd ar rediad effeithiol blynyddol arferol y grwpiau hyn:
Cyngor yr Ysgol
Pwyllgor Eco
Pwyllgor Ysgol Iach
Siarter Iaith